# SL(6)775 - Gorchymyn Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 18 Chwefror 2026 fel y diwrnod y daw Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("y **Cod**") i rym.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Er nad yw'r Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd, mae'r Cod yn dilyn y weithdrefn a nodir yn Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("**Deddf 2000**"). Mae'r Gorchymyn yn cadarnhau bod drafft o'r Cod wedi'i osod gerbron y Senedd ar 15 Rhagfyr 2025, yn unol â pharagraff 3(4) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

Yn unol â pharagraff 3(6) a 3(9) o Atodlen 8, os yw'r Senedd, o fewn cyfnod o 40 niwrnod (ac eithrio cyfnodau diddymu neu gyfnodau o doriad am fwy na phedwar diwrnod) sy'n dechrau â'r dyddiad gosod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ei ddyroddi.

Mae paragraff 3(7) o Atodlen 8 yn darparu, ymhlith pethau eraill, os na wneir penderfyniad o'r fath gan y Senedd o fewn y cyfnod o 40 niwrnod, fod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod, sy'n dod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 12 Chwefror 2026, ac ymddengys fod y dyddiad hwn yn disgyn ar ddiwrnod 39 o'r cyfnod o 40 niwrnod.

Mae rhaglith y Gorchymyn yn cynnwys y datganiadau a ganlyn:

> *"**Ni wnaed** penderfyniad o'r math a grybwyllir ym mharagraff 3(6) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 gan Senedd Cymru o fewn **40 niwrnod** i'r Cod Ymarfer drafft gael ei osod.*

***Dyroddwyd** y Cod Ymarfer, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(7)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000…"* ***[pwyslais wedi'i ychwanegu].***

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol:

1. y rheswm dros wneud y Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnod o 40 niwrnod a ragnodir ym mharagraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000 (ac nid ar ôl iddo ddod i ben);
2. y dyddiad y dyroddodd Gweinidogion Cymru y Cod yn unol â pharagraff 3(7)(a) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000; ac, yn unol â hynny,
3. a yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni y cydymffurfiwyd â gofynion Deddf 2000 wrth wneud y Cod.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mawrth 2026**